
# AROLYGIAETH PRAWF EI MAWRHYDI: MODEL AROLYGU ANSAWDD AC EFFAITH

## Y model arolygu tri-dimensiwn

- Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn arolygu'n annibynnol ac yn hyrwyddo gwelliant yn effeithiolrwydd pob gwasanaeth prawf **er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag niwed a lleihau aildroseddu**.

- Mae'r model arolygu newydd yn cynnig darlun aml-ddimensiwn o effeithiolrwydd gwasanaethau prawf trwy gyfuno **asesu ansawdd** gwaith i amddiffyn y cyhoedd a lleihau aildroseddu â **gwerthusiad o'r effaith** ar droseddwyr.




- Gellir gweld darlun o effeithiolrwydd lleol trwy **dri dimensiwn o arolygu**:


  1. **Arolygu effaith**: mae hyn yn gwerthuso canlyniadau presennol troseddwyr mewn ardal leol, trwy gynnig dyfarniadau o effaith. Mae dangosyddion effaith yn dangos a yw aildroseddu'n lleihau, a amddiffynnir y cyhoedd rhag niwed ac a yw unigolion yn ufuddhau i'w dedfryd.
  2. **Arolygiad arferion**: mae hyn yn asesu'r cyfraniadau a wneir at effeithiolrwydd ennyn cydweithrediad defnyddwyr y gwasanaethau, asesu a chynllunio, cyflawni ymyraethau, adolygiadau o'r gwaith a threfniadau arwain, rheoli a phartneriaethau. Mae'n rhoi barn ar ansawdd arferion mewn perthynas â chanlyniadau.
  3. **Llinellau ymholi**: archwilio rhwystrau a ffactorau galluogi trwy'r holl system o ran ymatal unigol, gan dynnu sylw at arloesi a phroblemau yn y system.

- Golyga'r dull tri-dimensiwn hwn y dadansoddir ansawdd ac effaith ar lefelau poblogaeth leol, asiantaeth a'r unigolyn i roi **darlun system-gyfan**.

# AROLYGIAETH PRAWF EI MAWRHYDI: MODEL AROLYGU ANSAWDD AC EFFAITH

## Dealltwriaeth ychwanegol lle mae'r dimensiynau'n cyfarfod

- Cyflawnir gwerth ychwanegol trwy **gyfuno'r dadansoddiad** o'r tri dimensiwn arolygu (y rhannau o'r diagram Venn sy'n gorgyffwrdd) i ddeall lefelau effeithiolrwydd lleol yn llawn:
  - **Arolygu Effaith + Arferion** – cymharu effaith cymharol gwahanol agweddau o gyflawni.
  - **Arolygu Effaith + Llinellau Ymholi** – olrhain teithiau troseddwyr unigol trwy'r system cyfiawnder troseddol i briodoli patrymau canlyniadau lleol.
  - **Arolygu Arferion + Llinellau Ymholi** – tynnu sylw at ran ffactorau polisi, arweiniad ac arferion lleol yn ymataliad yr unigolyn, gan gynnwys materion amrywiaeth.





- Gall **olrhain effaith** arolygiadau dros amser ychwanegu **'pedwerydd dimensiwn'** allweddol at y model. Trwy'n gysylltu'n hasesiad o ansawdd arferion ag effaith llawer mwy hir dymor, gallwn ddweud y gwahaniaeth cymharol y mae gwahanol agweddau o waith y gwasanaethau prawf yn ei wneud i deithiau ymatal datblygiadol. Gall gwybodaeth o'r fath fod yn sail ar gyfer arolygiadau arferion yn y dyfodol

# AROLYGIAETH PRAWF EI MAWRHYDI: MODELU AROLYGU ANSAWDD AC EFFAITH

## Symbylu gwelliant lleol a chenedlaethol

- Caiff canfyddiadau ac **argymhellion eu cyfeirio at bob lefel** o bob sefydliad cyfrifol ar daith y troseddwr yn ôl yr angen. Mae asiantaethau'n ymateb gyda chynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt ar gyfer gwella effeithiolrwydd. Bydd cynnydd yn erbyn y cynlluniau hyn ac effeithiau ar droseddwyr yn eu sgil yn cael eu monitro a'u gweithredu fel bo'n briodol.

- Ymatebir i unrhyw rwystrau i effaith ar yr unigolyn gydag awgrymiadau am newidiadau – gan ddefnyddio'n sail gwybodaeth sy'n cynnwys ymchwil, profiad arolygwyr, ac arferion addawol a ganfuwyd gennym yn rhywle arall.





- Mae galluogwyr a ganfuwyd ar arolygiadau yn gallu helpu adeiladu llyfrgell o arferion galluogi arloesol. Gall ffactorau a adnabuwyd ac argymhellion cysylltiedig helpu asiantaethau mewn ardaloedd daearyddol eraill i ddeall eu heffaith eu hunain yn well a dysgu gwersi, hyd yn oed cyn eu harolygiadau eu hunain.
- Bydd y model hwn yn adeiladu'r sail wybodaeth o ran (1) pa ffactorau fydd yn cael yr effaith cyffredinol mwyaf yn y cyd-destun presennol, a (2) arferion galluogi arloesol sy'n gwneud gwahaniaeth i ymataliad unigolion. Mae lledaenu'n helaeth y dystiolaeth hon o 'beth sy'n gweithio'n ymarferol' yn cynorthwyo gwelliant yn effeithiolrwydd y gwasanaethau prawf ledled Cymru a Lloegr.

# AROLYGIAETH PRAWF EI MAWRHYDI: MODEL AROLYGU ANSAWDD AC EFFAITH

## Model llawn

**Ansawdd** + **Effaith** arferion mewn ardal leol = **Effeithiolrwydd**

| Dyfarniadau ansawdd arferion yr asiantaeth | Dyfarniadau ar effaith yn yr ardal leol | Tynnu sylw ar arloesi a phroblemau yn y system |
|---|---|---|




**Gwella effeithiolrwydd y gwasanaeth prawf** yn lleol a ledled Cymru a Lloegr

| **Argymell newidiadau** | **Hyrwyddo** |
|---|---|